



## Claddu a chloddio

*Plant lleol yn creu eu fersiwn eu hunain o ddefod Neolithig wrth un o ddigwyddiadau 'Creu a Chracio' Cadw yn Siambr Gladdu Tinkinswood ym Mro Morgannwg*

Mae gwirfoddolwyr lleol a phlant ysgol wedi bod yn gweithio gydag archeolegwyr i ganfod rhagor am henebion ar garreg eu drws. Dr Ffion Rowlands, rheolwraig ymgysylltu cyhoeddus a'r iaith Gymraeg i Cadw, sy'n disgrifio'r broses.

Mae nythaid o blant – rhai gyda chwrn anifeiliaid tros eu hysgwyddau ac eraill yn drymio — wedi casglu o flaen Siambr Gladdu Tinkinswood. Mae pob llygad ar un bachgen

sy'n dal penglog dynol ac, ar y llawr, mae pentwr o ddarnau crochenwaith.

Nid golygfa o hen orffennol Cymru, fel y gwelwch chi o'r sgidiau trainer a'r gwisgoedd

ysgol, ond digwyddiad estyn allan i ysgolion ym mis Mawrth eleni i nodi diwedd ar chwe mis o brosiect Archeoleg Gymunedol Tinkinswood ym Mro Morgannwg.

Nod y prosiect — ble'r oedd Cadw'n gweithio mewn partneriaeth gydag Archeoleg Cymru, Cyngor Archeoleg Prydain ac Amgueddfa Cymru — oedd dwyn pobl lleol ac archeolegwyr proffesiynol ynghyd i archwilio ac aildehongli'r siambrau claddu mawreddog yn Nhinkinswood a Llwyneliddon, sydd tuag 1.6km (1 milltir) oddi wrth ei gilydd yn y wlad i'r gorllewin o Gaerdydd. Mae'r gwaith o ddatrys darnau o hanes hir y safleoedd trwy glirio, cloddio ac ail-greu defodau

wedi helpu cyfranogwyr o bob oed i uniaethu'n gryfach gyda'r henebion gwych hyn a themlo perchnogaeth trostyn nhw.

Yn Nhinkinswood, roedd y prosiect yn adeiladu ar ymchwiliadau arloesol John Ward, ceidwad archeoleg Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn 1914. Dangosodd Ward bod carnedd led betryal, gyda muriau cynnal o gerrig sych, yn amgylchynu'r siambr – heblaw am yr ochr ddwyreiniol lle'r oedd y muriau'n crymu i greu buarth o flaen mynedfa'r beddrod. Mae'r rhain i gyd yn elfennau nodweddiadol o feddrodau 'Cotswold-Hafren'. Daethpwyd o hyd i fwy na 900 darn o asgwrn dynol, a'r rheiny efallai'n dod o hyd at 50 o



*Gwirfoddolwyr o Ymddiriedolaeth Brydeinig Gwirfoddolwyr Cadwraeth yn dofi'r llystyfiant ymwithiol yn Nhinkinswood*

unigolion, gan gynnwys dynion, merched a phlant.

Roedd John Ward wedi adfer Tinkinswood er mwyn ei dangos i'r cyhoedd a, fyth ers hynny, mae ymwelwyr wedi cael ei harchwilio a'i mwynhau. Yn ddiweddar, fodd bynnag, roedd llystyfiant wedi dechrau tyfu tros y safle a chlirio hwnnw oedd rhan gynta'r prosiect cymunedol.

Dechreuodd grŵp lleol o Ymddiriedolaeth Brydeinig Gwirfoddolwyr Cadwraeth (Y Gwirfoddolwyr Cadwraeth erbyn hyn) glirio'r safle ym mis Medi 2011 ac, o fewn ychydig ddyddiau, roedd hi'n bosib eto i fynd o amgylch yr heneb i gyd ac archwilio'r holl fur cynnal. Canlyniad arall i'w gwaith caled oedd ailagor golygfeydd sy'n ei gwneud yn haws i werthfawrogi lle'r heneb yn y dirwedd.

Bu'r grŵp yn ffensio'r ardal gyfagos, sy'n cael ei galw yn 'Chwarel', er mwyn ei hagor i ymwelwyr am y tro cyntaf. Ers tro byd awgrymwyd mai oddi yma y daeth y capfaen anferth 40 tunnell yn Nhinkinswood — un o'r mwyaf yng ngwledydd Prydain. Roedd yno hefyd ddau bentwr dengar o gerrig gerllaw a allai fod yn siambrau claddu chwâl. Felly, roedd y safleoedd hyn, ynghyd â'r beddrod yn



*Mae modd gwerthfawrogi maint yr heneb yn Nhinkinswood ar ôl clirio'r llystyfiant*

Llwyneliddon, yn destunau perffaith ar gyfer cloddio cymunedol.

Cafwyd ymateb brwdfrydig i'r apêl am gloddwyr gan aelodau Grŵp Hanes Gwenfô, llu o wirfoddolwyr lleol a nifer o fyfyrwyr archeoleg o Brifysgol Caerdydd. Doedd amryw o'r gwirfoddolwyr ddim wedi trin trywel cyn hynny.

Parhaodd y cloddio yn Tinkinswood am bythefnos yn niwedd mis Hydref a dechrau mis Tachwedd 2011. Yn hytrach na dod o hyd i ddeunydd Neolithig, yn ôl y disgwyl, daeth y tîm o hyd i bethau diddorol o'r Oes Efydd a chyfnod y Rhufeiniaid.

Daeth yn amlwg mai crug

digon dinod o'r Oes Efydd oedd un o'r siambrau chwâl posib — yr agosaf at y chwarel. Roedd tua 5m (16 troedfedd) ar ei draws. O dani roedd dau dwll a gloddiwyd i'r graig ond, oherwydd yr asid yn y pridd mae'n debyg, doedd dim olion yn weddill o'r hyn a gladdwyd 4,000 o flynyddoedd yn ôl. Yn lefelau ucha'r beddrod, fodd bynnag, fe ddaethon ni ar draws llawer o esgryn a amlosgwyd a darn o arian Rhufeinig, sy'n dangos bod ardal Tinkinswood yn cael ei defnyddio ymhell ar ôl i'r brif siambr gladdu Neolithig gael ei chodi. Mae'r dystiolaeth fod pobl yn parhau i ymweld ymhell i'r cyfnod Rhufeinig wedi trawsnewid ein dealltwriaeth ni o'r dirwedd o amgylch.

Daeth yn amlwg mai creadigaeth fodern oedd y beddrod chwâl posib arall, efallai o ganlyniad i glirio caeau neu efallai'n waith ffug i adleisio pensaernïaeth prif siambr Tinkinswood.

Yn anffodus, er ein bod wedi cloddio chwech pŵll prawf yn Y Chwarel, chafwyd dim tystiolaeth o waith cloddio Neolithig. Felly parhau'n ansicr y mae tarddiad capfaen mawr Tinkinswood.

Yn niwedd mis Tachwedd, symudodd canolbwynt y prosiect i Llwyneliddon. Er bod olion dynol a chrochenwaith wedi'u cael yno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dyma'r tro cyntaf i'r beddrod gael ei gloddio'n wyddonol ac fe ddechreuson ni ar y gwaith cloddio tair wythnos yn llawn cyffro.

Datgelodd ein ffosydd gyfoeth o wybodaeth am strwythur y beddrod. Er bod y garnedd ei hun wedi ei difrodi'n wael gan ganrifoedd o ddwyn cerrig ac aredig diweddar, roedd hi'n amlwg fod y garnedd wedi ei hadeiladu o slabiau a chreigiau calch a'i bod yn wreiddiol yn 30m (98 troedfedd) o hyd ac yn 12m (39 troedfedd) o led.

Yn union fel yn Nhinkinswood, roedd mur

## Y siambrau yn eu hoes

Mae Tinkinswood a Llwyneliddon fel ei gilydd rhwng 5,000 a 6,000 oed, yn deillio o'r cyfnod Neolithig pan oedd trigolion gwledydd Prydain yn dechrau setlo a ffermio am y tro cyntaf. Roedd

hwnnw'n gyfnod o newidiadau hanesyddol. Dangosodd tystiolaeth archeolegol fod pobl Neolithig yn dechrau ar broses hir o drawsffurfio'r dirwedd trwy naddu caeau o'r tir gwyllt a magu anifeiliaid dof. Ar yr un pryd, roedden nhw wedi

*Cloddio ar waith yn 'y siambr gladdu chwâl' yn Nhinkinswood — darganfuwyd mai beddrod oedd hi o'r Oes Efydd*



cynnal isel o gerrig sych o amgylch y twmpath, gyda muriau cerrig sych mwy trawiadol o bobtu i fynedfa'r siambr o'r dwyrain, gan greu blaengwrt.

Roedd ffos yno wedi datgelu nifer o wrthrychau pwysig, gan gynnwys darnau esgryn a dannedd dynol, rhan o nodwydd asgwrn, darn o fwyell garreg loyw Neolithig a sglodion o grochenwaith Neolithig Rhychiog. Mae'r cyfan wedi'u hanfon i gael eu hastudio gan arbenigwyr.

Un o'n canlyniadau mwyaf cyffrous oedd dod o hyd i samplau golosg o'r lefel tir cynhanes o dan yr heneb. Dylai defnyddio dull radio carbon i ddyddio'r rhain arwain at well dealltwriaeth o oed a'r drefn adeiladu yn Llwyneliddon.

Nid diwedd y cloddio oedd diwedd y prosiect. Yng ngwanwyn 2012, gweithiodd



Offrwm i gyndeidiau — un o ddigwyddiadau Creu a Chracio

Cadw gydag ysgolion cynradd lleol yn Sain Niclas a Llanbedr-y-fro ar raglen o weithgareddau o'r enw 'Creu a Chracio', wedi ei hysbrydoli gan y darnau crochenwaith Neolithig a ganfuwyd gan John Ward yn y blaengwrt yn Nhinkinswood. Y dehongliad o'r rhain yw eu bod yn olion defodau hynafol pan oedd y gymuned yn gosod darnau o grochenwaith er cof am y rhai a gladdwyd oddi mewn. Aeth y plant ati i greu eu fersiwn eu hunain o'r ddefod.

Ar ôl cael eu hysbrydoli gan ymweliad i weld y gwrthrychau o gloddio 1914 a phrynawn yn Nhinkinswood, fe wnaethon nhw eu potiau torchog a gweithio gyda'r artist sain Dylan Adams ar gerddoriaeth i gyfeilio i'r defodau. Yna, tros ddeuddydd ddiwedd Mawrth, cafodd Tinkinswood ei feddiannu gan y dosbarthiadau gyda drymiau, crwyn potiau, bwyell loyw o garreg a'r penglog pwysig. Cafodd potiau eu torri a chrëwyd cerddoriaeth wych ac argraff fawr ar bawb. Dyma a ysgrifennodd un o'r plant yn Saesneg ar ôl y digwyddiad:

'Roedd y seremoni'n gwneud i fi deimlo fel petawn i wedi colli aelod o'r teulu achos roedd hi am rywun yn mynd i mewn i'r siambr i fyd yr ysbrydion ... roedd yna deimlad tywyll, rhyfedd ... roedd yn teimlo'n eitha' cyffrous ar y dechrau achos roedd y drymiau'n curo'n hudolus, ond yna ddechreuon ni dorri'r potiau ac aeth hi ychydig fwy sbwci ac ychydig yn arswydus achos roedd hi fel

dechrau creu crochenwaith ar gyfer coginio a storio.

Roedd pobl Neolithig Prydain hefyd wedi dechrau anrhydeddu'r meirw trwy godi beddrodau megalithig. O dan enw 'dolmen' neu 'gromlech', mae'r rhain i'w cael ym mhob rhan o Gymru. Roedd y siambrau claddu yn cynnwys eu cymunedau mewn gwaith

mawr wrth gynllunio, trefnu ac adeiladu. Datgelodd cloddio archeolegol dystiolaeth o gladdu olynol a defodau.

Roedd y beddrodau mawr hyn yn fwy na dim ond 'tai i'r meirw'; roedden nhw hefyd yn fynegiant arhosol o hunaniaeth cymuned trwy ei chysylltiad gyda'i chyndeidiau a'i thir.

© Helen Hywel



Darlun o'r siambr gladdu yn Llwyneliddon gan Helen Hywel, un o wirfoddolwyr y prosiect

petaen ni mewn llesmair ...'

Am ychydig, i'r holl blant yn Nhinkinswood ar y ddeuddydd yna' ym Mis Mawrth, daeth y gorffennol Neolithig yn rhan o'u presennol nhw ac fe fydd eu ffordd o feddwl am yr heneb wedi newid am byth. ✚

- Er fod prosiect Arheoleg Cymunedol Tinkinswood wedi gorffen, gallwch ymweld â'r wefan o hyd — <http://tinkinswoodarchaeology.wordpress.com/> — i ddysgu rhagor am y prosiect a darllen blogiau'r cloddio.



Y cloddio ar waith yn Llwyneliddon © AerialCam, 2011

## Tro o amgylch Tinkinswood a Llwyneliddon

Mae'r tro cylch pleruser hwn yn ymweld â Siambrau Claddu Tinkinswood a Llwyneliddon ac yn cynnig golygfeydd ardderchog ar draws dyffryn Elái cyn dychwelyd i'r man cychwyn ym mhentref Sain Niclas.

### Cyn cychwyn

**Pellter:** 9.2km (5 ¾ milltir)

**Amser:** 3 ½ awr

**Map:** OS Explorer 151

**Cychwyn/Parcio:** Mae Sain Niclas ar yr A48 rhwng Caerdydd a'r Bontfaen. Parciwch yn ystyriol ger yr eglwys yng ngogledd y pentref (cyfeirnod grid ST 090743).

**Safleoedd Cadw:** Siambr Gladdu Tinkinswood a Siambr Gladdu Llwyneliddon — safleoedd di-staff, yn agored 10am–4pm

**Tir:** Tro cymedrol yw hwn ar hyd llwybrau mewn caeau a lonydd. Ar y rheiny, gwylwch am gerbydau.

**Trafnidiaeth gyhoeddus:** X2 Caerdydd – Pen-y-bont – Porthcawl. Ewch i [www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info) am wybodaeth am y gwasanaeth.

**Lluniaeth:** Ystafell de yng Ngerddi Dyffryn. Yn agored 1 Mawrth – 31 Hydref: 10am–6pm; 1 Tachwedd – 28 Chwefror: 10am–4pm

Gwnewch yn siŵr fod gyda chi esgidiau cadarn a dillad addas. Cadwch at y Côd Cefn Gwlad [www.countrysidecode.wales.org.uk](http://www.countrysidecode.wales.org.uk) a chlicio 'Cymraeg'

**(1)** Cerddwch allan i'r A48 a thro i'r chwith. Cyn hir, trowch i'r dde i lôn gydag arwydd Dyffryn. Cerddwch am 150m (165 llath) at gamfa/sticil ar y dde sy'n arwain at Lwybr Treftadaeth y Mileniwm, gydag arwyddion clir. Dilynwch y llwybr tua'r de ar draws camfeydd nes gweld Siambr Gladdu Tinkinswood ar y dde.


**(2)** Ewch trwy'r gât mochyn i ymweld â'r siambr a chofiwch wrando wrth y post gwrando newydd. Wrth adael y safle, croeswch ddwy gamfa gyfagos i ail ymuno â'r llwybr Treftadaeth. Parhewch

tua'r de ar draws rhagor o gamfeydd nes cyrraedd lôn. Ewch i'r chwith, gan adael y llwybr, a dilyn y lôn. Ar ôl pasio lôn ar y chwith, ewch ymlaen am 200m (220 llath) at gât mochyn ar y dde sy'n arwain at Siambr Gladdu Llwyneliddon.

**(3)** Ar ôl ymweld â'r safle, lle mae postyn gwrando newydd arall, ewch yn ôl yr un ffordd i'r lôn groes a thro i'r dde. Mae'r lôn yn mynd heibio i fynedfa Gerddi Dyffryn, lle gallwch droi i mewn i gael lluniaeth neu archwilio'r gerddi gwych o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (pris mynediad i'r gerddi). Ar ôl tua 150m (165 llath) ymhellach, mae camfa ar y dde.

**(4)** Croeswch y gamfa a mynd ar letrows i'r chwith i fyny rhiw at gât y tu ôl i goed. Ewch ymlaen trwy'r caeau ac ar draws camfeydd gyda'r gwrych ar y dde. Yn y diwedd, mae'r llwybr yn gadael y gwrych ac, ar ôl croesi camfa, mae'n disgyn trwy goedlan fechan (gall fod yn wlyb dan draed) at fan amlwg lle mae llwybrau'n cwrdd.

**(5)** Croeswch y gamfa gan ddilyn y llwybr at Y



Twyni. Ewch ymlaen trwy gaeau a thros gamfeydd nes pasio adeiladau fferm ar y chwith ac yna dod at dir comin bach o'r enw Y Twyni. Ewch i'r chwith hyd drac glaswellt wedi'i dorri, ewch trwy goed a thro i'r chwith hyd lwybr i ddod at ffordd rhwng tai.

**(6)** Ewch hyd ffordd gul rhwng tai at bont droed tros yr A48. Croeswch yr A48 a mynd yn eich blaen hyd yr ymyl nes dod at risiau ar y dde yn arwain at gât mochyn. Dilynwch lwybr clir tros sawl camfa at lôn dawel ger fferm Haelfaes.

**(7)** Trowch i'r chwith a

dilyn y lôn am i lawr am tua 150m (165 llath) at gamfa ar y chwith. Croeswch y gamfa a dilyn y llwybr trwy glwstwr o goed a thrwy sawl cae i gyrraedd trac sy'n dringo i fyny o ddyffryn Elái. Trowch i'r chwith a dilyn y trac yn ôl i Sain Niclas.



*Ymwelwyr yn mwynhau'r postyn gwrando newydd yn Nhinkinswood*